

Y DINESYDD

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

EBRILL/MAI 1977

RHIF 39

Steddfod Carlo...

Felly mae Eisteddfod Caerdydd i gael ei hanrhydeddu gan bresenoldeb aelod o deulu brenhinol Lloegr wedi'r cyfan. Mewn cyfarfod o Gyngor yr Eisteddfod yn y Drenewydd ar Fawrth 19eg, derbyniwyd llythyr oddi wrth Gyngor Dinas Caerdydd yn dweud y dymuna darpar Arglwydd Faer Caerdydd wahodd y Tywysog Siarl i'r Wyl. Diolch i fethiant cywilyddus Cyngor yr Eisteddfod i wneud safiad pendant yn erbyn cynlluniau Cyngor Dinas Caerdydd, Steddfod Carlo fydd Steddfod Pentwyn (sori, Steddfod Caerdydd).

Ac eisoes, mae'r hel esgusodion wedi dechrau, a difaterwech yn ei amlygu ei hun ar bob llaw. "Anwybyddwch y Prins," meddai rhai, "dyw e ddim werth y drafferth." Ie, anwybyddu ar bob cyfrif. Ond nid anwybyddu yw estyn gwahoddiad iddo ddod i'r Eisteddfod; anwybyddu yw peidio ag estyn gwahoddiad yn y lle cyntaf. "Aha," medd yr amddiffynwyr, "ond nid Cyngor yr Eisteddfod sy'n gwahodd y Prins. Cyngor Dinas Caerdydd sydd am wneud — does dim bai ar Gyngor yr Eisteddfod."

Mae dyn yn rhwym o ofyn felly — pwy sy'n rhedeg Eisteddfod Caerdydd yn y pen draw? Cyngor cenedlaethol yr Wyl — neu griw o gynghorwyr yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd? Bron na fyddai dyn yn teimlo'n well petai Cyngor yr Eisteddfod, os ydyw o blaid ymweliad Carlo, wedi ei wahodd i Gaerdydd ei hun yn lle cuddio o dan gochl Gyngor y Ddinas. (Ac y mae'n amlwg fod yna nifer sylweddol o aelodau Cyngor yr Eisteddfod o blaid yr ymweliad oherwydd derbyniwyd y cynnig â mwyafrif clir pan bleidleisiwyd arno.)

Ond mae rhagor o esgusodion i ddod. "Wedi'r cwbl," medd llefarydd y garfan gwell-gwneud-dim-byd-rhag-tarfu-ar-neb (neb o 'swys, hynny yw), "fedrwn ni ddim atal y Prins rhag dod i'r Steddfod os ydy e am ddod. Fedrwn ni ddim gwrthod mynediad i neb sy'n prynu toecyn wrth y glwyd." Gan ysgubo i'r naill ochr y cwestiwn diddorol tybed a fydd disgwyl i Carlo dalu am docyn i'r

maes ar ei Ymweliad Brenhinawl, cytunwn fod hwn yn fater anodd. Does neb yn disgwyl i aelodau Cyngor yr Eisteddfod ffurfio'n rhengoedd wrth y glwyd i atal y Br. Charles Windsor, aelod diniwed o'r cyhoedd Seisnig rhag ymweld â'n Gŵyl genedlaethol fel unrhyw dwrist arall.

Ond y mae yna wahaniaeth rhwng hynny ag ymweliad mab brenhines Lloegr, gŵr sy'n hawlio bod yn Dywysog ar Gymru, symbol o lofruddiaeth ein hiaith a nychdod ein gwareiddiad Cymraeg, â'r Wyl sydd, yn anad dim byd arall, yn ceisio meithrin ac amddiffyn yr union ddiwylliant a ddarniwyd mor frawychus ar hyd y canrifoedd gan ormes y goron y mae Siarl yn ei chynrychioli. Ac os na all aelodau Cyngor yr Eisteddfod weld y gwahaniaeth hwnnw, dyn a'n helpo.

Na, dyw'r tywysog ddim yn mynd i droi lan yn dawel fach ar ei ben ei hun a chrydro'r maes gyda phawb arall yn bwyta hufen ia'r Ganolfan ac yfed pop. Fe ddaw â'i osgordd arferol o dditectyddion, heddeidwaid, gwleidyddion, gweision suful a detholiad o grafwyr tin sefydliadol eraill; fe wneir trefniadau arbennig ar ei gyfer, peidied neb ag amau hynny am eiliad, beth bynnag yw'r addewidion nawr. Cawn seremoni groesawu yn y Pafiliwn — a gair bach o'r llwyfan gan Carlo ei hun, hwyrach? Wedi'r cwbl, mae'n siarad Cymraeg, on'd ydy? Dim angen torri'r rheol Gymraeg hyd yn oed — er mae'n siwr y gellid hepgor hynny hefyd, dim ond i



Gyngor Caerdydd ofyn yn neis.

Ond digon o wag-ddarogan. Y cwestiwn yw beth ydym ni, bobl Caerdydd, yn mynd i'w wneud ynglŷn â'r ffars hon? Eistedd i lawr yn dawel a derbyn y cwbl — neu wneud gwaith Gyngor yr Eisteddfod drostynt drwy ddatgan ein gwrthwynebiad i'r gwahoddiad cywilyddus hwn, mewn geiriau a thrwy weithred ymarferol — sef ymddiswyddo o holl bwylgorau'r Eisteddfod oni thynnir y gwahoddiad hwn yn ôl. Os mai unig furiad Cyngor Dinas Caerdydd wrth wahodd Eisteddfod Genedlaethol Cymru i'r brifddinas oedd darparu llwyfan cyhoeddus i ymweliad gan aelod o deulu brenhinol Lloegr, yna gwell gadael iddynt redeg eu sioe eu hunain.

O.N. Adroddodd Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Caerdydd ar y mater hwn yng nghyfarfod y Pwyllgor ar Ebrill 6ed. Ni chafwyd yr un ymateb gan aelodau'r pwyllgor.

Marw Griffith Williams

Gofid o'r mwyaf oedd clywed am farwolaeth Mr Griffith Williams, Llandaf ddiwedd mis Mawrth. Brodor o'r Rhondda oedd Mr Williams, a bu'n ohebydd papur newydd am nifer o flynyddoedd yn Fleet Street cyn dychwelyd i Gymru a dod i fyw yng Nghaerdydd. Rhoddai yn hael o'i amser a'i egni i achosion Cymreig y cylch; un enghraifft o hyn oedd ei lafur cyson yn paratoi tudalen ar y celfyddydau bob wythnos i'r *Welsh Nation* pan oedd y papur hwnnw yn wythnosolyn.

Roedd yn briod â Marion Eames, y nofelydd a'r cynhyrchydd radio. Ar ran holl ddarlennwyr *Y Dinesydd*, cared estyn ein cydymdeimlad dwysaf i Marion yn ei phrofedigaeth.

Y MUDIAD MEITHRIN

Cylch y Tyllgoed

Un o'r pethau sydd wedi mynd â fy mryd yr wythnosau diwetha ma yw paratoi yn ffyddiog at agor Cylch Meithrin y Tyllgoed. Wedi sicrhau adeilad a phlant, mae llawer i'w wneud. Rhaid cael y Neuadd yn barod a sicrhau y gallwn fodloni holl ofynion yr awdurdodau Tân a Iechyd. Mae cryn frwdfrydedd yn y Tyllgoed ac mae popeth yn mynd yn hwylus oni bai am un peth — a hwnnw'n hollbwysig. Ni ddaeth ateb o gwbl i'm cri am athrawes a dichon y bydd raid mynd o gwmpas yn cnocio drysau a chrefu ar rywun i gymryd at y gwaith.

Apel am offer

A ga'i nodi yn y fan hyn y pethau y carai'r cylch eu cael cyn gallu agor? Cwprdd neu sillfoedd; piano; siglen; ffrâm ddringo neu lithren; Tŷ Bach Twt neu siop; tŷ dol; garej; beiciau bach; peli; blociau bach a mawr; dillad a betiau i'w gwisgo; llestri te plastig; offerynnau band taro; byrddau du a byrddau peintio; ffedogau plastig; sisyrnau, jigsaws a llyfrau. Buaswn yn falch o glywed gan unrwyun er mwyn casglu offer o rywle.

Siom y Reardon Smith

Fel gwyr rhai a fu yn Theatr Reardon Smith fis yn ôl, fe gafodd Cylch Meithrin Pentwyn siom fawr. Trefnwyd noson efo Mynediad am Ddim ac Esme Lewis — ymdrech gyhoeddus gynta Pentwyn i godi arian. Ychydig dros

hanner cant a ddaeth ar y noson — siom i'r trefnwyr a'r performwyr, a cholled ariannol sylweddol. Carwn grybwyll fy ngwerthfawrogiad am y modd proffesiynol y perfformiodd y grŵp ac Esme Lewis i gynulleidfa mor denau. Tystiodd pawb a oedd yno ei bod wedi bod yn noson hynod o ddifyr, ar wahan i'r ffaith fod pawb yn teimlo dipyn bach yn annifyr o weld yr holl seddi gwag.

Calonogol yw gallu dweud bod Cylch Pentwyn wedi llywddo i glirio colled y noson — trwy lafur y Cylch a thrwy haelioni Clwb Dysgwyr Mr Gwilym Roberts. Diolch i Gyloch Pentwyn am beidio â digalonni, a diolch i Gwilym am ei gefnogaeth cyson.

Dysgwyr Pentwyn

Gyda llaw, mae Cylch Mam a'i Phlentyn Pentwyn yn llwyddiannus iawn, ac mae yno ddsbarth brwdfrydig o Ddysgwyr — yn cyfarfod ar brynhawen Mercher. Os oes gan unrwyun ddiddordeb mewn ymuno â'r dosbarth dysgu Cymraeg, cysyllter a Mrs Avril Jones, ffôn: 757514.

Eisteddfod Pentwyn?

Gyda'r brwdfrydedd sydd yng Nghylch Meithrin Pentwyn a Chylch Mam a'i Phlentyn Pentwyn a Dosbarth Dysgu Cymraeg Pentwyn, gwylid y brifddinas rhag ofn iddynt fynnu mai Eisteddfod Genedlaethol Pentwyn a'r Cylch fydd yma'r flwyddyn nesa!

SHÂN EMLYN

Diolch

Carai'r Bwrdd Golygyddol gydnabod yn ddiolchgar gymorth ariannol Cymdeithas Gelfyddydau De-Ddwyrain Cymru.

Yn gwella

Mae ei llu cyfeillion yn falch deall fod Mrs Glenys Evans, 19 Mill Close, yn parhau i wella ar ôl anhwylder sy wedi para am sbel.

Bydd y rhifyn nesaf o'r Dinesydd yn ymddangos ar **Fehefin 10fed**. Deunydd erbyn MAI 30 fan bella, os gwellwch yn dda. Danfoner at: Golygydd Y Dinesydd, 25 Heol Ilton, Penylan, Caerdydd. (D.S. CYFEIRIAD NEWYDD.)

O'R POST

ANNWYL OLYGYDD,

Gwelais lythyr yn Y Dinesydd ym mis Mawrth, gan Iwan Jones (17).

Tybed sut mae Mr Jones yn adnabod cymaint ar dafarnau Caerdydd — ac yntau'n (17)?

Yn amheus.

PETER DAVIES,
Coleg Addysg Cyncoed,
Caerdydd.

O.N. Hir oes i'r Dyn Dwad.

ANNWYL SYR,

Braidd yn siomedig hyd yn hyn fu ymateb darllennwyr y Dinesydd i'r Apêl a wnaed yn y rhifyn olaf am wirfoddolwyr i fod yn stiwardiaid yn Eisteddfod yr Urdd yn y Barri. Carwn felly buwysleisio ein bod yn dibynnu i rannau helaeth ar Gymry Cymraeg y ddinas i'n helpu i gael cymaint â fedrun o'r stiwardiaid yn Gymry Cymraeg.

Os gallwch helpu, hyd yn oed drwy weithio am un shift yn ystod un o ddyddiau'r Eisteddfod, byddwn yn falch iawn pe cysylltwch ar unwaith â Swyddfa'r Eisteddfod, 105 High Street, Y Barri (Ffôn 741519) neu unrhyw aelod o'r Pwyllgor.

Yr eiddoch yn gywir,

ALUN DANIEL,
Ysgrifennydd Pwyllgor
Stiwardio.

CROESO I'R DDINAS

Mae Cymro glân gloyw wedi dod i'r ddinas i ymgartrefu ar ôl gweithio am rai blynyddoedd yn Lloegr. Mae Mr Ieuan Edwards wedi derbyn swydd yn Adran Gymraeg Llyfrgell Dinas Caerdydd ac roedd yn dechrau'n swyddogol ar ei waith ar Ebrill 1af. Deallwn nad yw'r teulu wedi dod o hyd i dŷ hyd yn hyn, ond maen nhw'n siwr o oresgyn y broblem hon yn fuan. Gwr o Ddyfed yw Mr Edwards a'i wreiddiau yn naear Pontrhydygroes yng Ngheredigion. Ie, Cardi arall!

Y rhaglen olaf yn
y gyfres bresennol o

JAM

Dydd Mawrth, 3ydd o Fai
am 6.30p.m.

HTV
CYMRU WALES

o'r Ganolfan Deledu
yng Nghaerdydd

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL
URDD GOBAITH CYMRU
Y BARRI A'R FRO. 7-11 MEHEFIN, 1977

CLERC/TEIPYDD (2)

yn Swyddfa'r Eisteddfod, Y Barri.
1 Ebrill - Mehefin 1977

Gwahoddir ceisiadau am y swyddi uchod. Profiad mewn gwaith swyddfa a gallu i deipio yn fanteisiol. Gwybodaeth o'r Saesneg yn fanteisiol ond nid yn angenrheidiol.

Am fanylion pellach am y swydd, anfoner at y Trefnwyr, Swyddfa'r Eisteddfod, 105 High Street, Y Barri. (Tel: 741519.)

Canu'n iach i'r Warden

Mae Caerdydd yn drist iawn i ffarwelio â Ian ap Dewi, Warden cyntaf Canolfan yr Urdd, a roddodd y gorau i'r swydd ddiwedd mis Mawrth. Erbyn hyn, mae Ian wedi dychwelyd i'w fro enedigol i weithio ar staff Gwersyll yr Urdd yn Llangrannog.

Dechreuodd Ian ar ei waith yn y Ganolfan ym mis Medi 1973; ar y pryd, roedd llawer o welliannau a newidiadau yn cael eu gwneud i'r hen adeilad. Fis yn ddiweddarach, agorodd Canolfan yr Urdd ar ei newydd wedd, yn ganolfan deilwng a deniadol i Gymry Caerdydd.

Un o weithgareddau cyntaf Ian oedd ceisio gwneud y lle yn Ganolfan i blant ysgol di-Gymraeg hefyd, lle y gallent ddod iddo am wersi ychwanegol ar ôl ysgol ac yna ymarfer yr iaith yn ddifyr drwy chwarae tennis bwrdd, cael paned ac ati. O dan ei ofal amyneddgar, tyfodd y Ganolfan i fod yn bwerdy o weithgareddau, gyda chant a mil o bethau gwahanol yn digwydd yno bob nos; fe'i defnyddir yn helaeth yn y dydd nawr hefyd, rhwng yr Ysgol Feithrin, cysiau Wipan ac ati.

Gobeithio nad y pydredd sych yrrodd Ian o'r Ganolfan, beth bynnag! O leiaf, cafodd y boddhad o weld adfer y lle i'w gyflwr blaenorol cyn iddo ymadael, er bod y ddyled ariannol yn dal yn faich llethol ar adnoddau'r Ganolfan.

Ar ran holl ddarllenwyr *Y Dinesydd* (ac yn enwedig y rheini sydd wedi defnyddio'r Ganolfan yn rheolaidd ar hyd y blynyddoedd) carem ddiolch o galon i Ian am ei holl waith da; fe welwn ni i gyd golled anferth ar ei ôl. Pob dymuniad da iddo ef a Carol a'r plant nôl yn yr hen sir!

(Y Parch Rhys Tudur, gweinidog Gwaelod y Garth fydd yn gofalu am y Ganolfan



IAN AP DEWI

o nawr hyd fis Mehefin pan fydd y Warden newydd yn dechrau ar ei waith — rhyw fath o "caretaker government" fel y disgrifia Rhys ei hun y sefyllfa! Pob hwyl iddo yntau gyda'r gwaith.)

"£500!" medd Daniel Owen

Ie! £500, y wobwr a gynigir gan HTV Cymru i ysgrifennwr y nofel fuddugol yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd. Yr enw arni yw Gwobr Daniel Owen a bydd yn parhau i gael ei chynnis mewn Eisteddfodau Cenedlaethol eraill sy'n dilyn. Ymateb yw llyn i her Iestyn Ffowc Elis a ddywedodd yn Eisteddfod Aberteifi ei bod yn hwyr bryd i'r nofel gael ei lle haeddiannol yn yr Eisteddfod. Tw Bi shwar, fe fyddai Daniel Owen wrth ei fodd pe bai'n teilwra yng Nghaerdydd ar hyn o bryd ac yn agored i gystadlu. Ond wn i ddim beth ddywedai Mari Lewis, chwaith...


FFARWEL I IAN AP DEWI

*Cyn ei ddychwel, ffarweliwn — â'n warden,
Y gwrda, diolchwn,
Am ei ynni, dymunwn
Bob llwydd yn rhwydd i'r gŵr hwn.*

*Yn y ddinas, rhoedd yno'n — warchodwr
A cheidwad mor ffyddlon,
Yn wir, yn anialuch hon,
Garddwr a fu i'n gwerddon.*

*Nawr ei frwd lafur o fri — a barheir
Ar bridd Aberteifi;
Diolch i ti, Ian ap Dewi,
Dy waith fu'n obaith i ni.*

EMYR LEWIS



Canolfan Addysg Oedolion
Yr Eglwys Newydd

(Ffôn: 614392)

CELFYDDYD AM BLESER
(Pob safon)

Cwrs byr, trwy gyfrwng y Gymraeg, yn dechrau yn ystod Tymor yr Haf ac yn parhau am chwech wythnos. Trefnir y cwrs ar gyfer dechreuwyr yn ogystal â phobl â phrofiad, ac astudir agweddau amrywiol o gelfyddyd a darlunio.

NOS LUN Ebrill 25ain

TÂL £2

Gŵyl Ddrama ym mis Mai

Ar ôl llywyddiant diamheuol yr ŵyl ddrama llynedd, mae trefniadau mewn llaw eleni eto i gynnal gŵyl arall. Os ceir digon o gwmniau i gystadlu, bydd y perfformio'n cymryd dwy noson — a'r tro hwn byddwn wrthi yng Ngholeg Addysg Dinas Caerdydd ar Fai'r 27ain a'r 28ain. Os ydych yn teimlo fel codi cwmni — ac mae croeso i bawb — cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Hywel Lloyd Evans, 6 Heol Gillian, Caerdydd yn ddiymdroi.

CYMANFA GANU

Bydd Cymanfa Ganu'r Llundwyn yn Llysfaen nos Lun, Mai 31ain am 7.30p.m. Cynhelir y Gymanfa yng nghapel bach Llysfaen (ar Ffordd Rhydri) ac fe fydd croeso gwresog i bawb yno.

YMDDIHEURO

Mae'n ddrwg gennym fod y rhifyn hwn mor hwyr, ac wedi troi'n rhifyn Ebrill/Mai; rhaid beio'r etholiadau lleol am hyn, a'r ffaith fod y Gol. yn mynd ar ei gwyliau ym mis Mai!

Mynd yn ôl i'r wlad

Mae Miss Nan Jones, athrawes gerddoriaeth yn ysgol Rhyd-felen, ac arweinydd côr cerdd dant (enwog!) Aelwyd Caerdydd wedi derbyn swydd yn Ysgol Pwllheli, yn agos at ei gwir gartref. Rydyn ni'n siwr y bydd Nan wrth ei bodd yn dychwelyd i fro'i phlentyn-dod, ond rydym yr un mor siwr y bydd bwlech enfawr ar ei hól yng nghylchoedd Caerdydd.

Penderfynodd staff *Y Dinesydd* agor cronfa er prynu anrheg ffarwel i Nan. Y bwriad yw buddsoddi mewn tegell o haearn bwrw i gymryd lle'r un a losgodd yn dwll yr wythnos o'r blaen tra'r oedd Nan wrthi'n cyfansoddi samffoni neu rywbeth mewn ystafell arall! Croesewir pob cyfraniad.

CADERNID GWYNEDD
BUDDSODDWC
YNG NGHYMRU



CYMDEITHAS
TAI GWYNEDD

DANFONWC HEDDIW AT
Dafydd Iwan
Cymdeithas Tai Gwynedd

Penygroes, Ffôn 730
Caernarfon
Gwynedd

TUDALEN Y DYSGWYR

Rydyn ni'n rhoi'r dudalen y mis hwn i farddoniaeth dysgwyr Ysgol Nos Glan-y-Nant. Mae'r rhain wedi dysgu siarad Cymraeg yn yr ysgol nos ac yn awr, maen nhw'n dilyn cwrs mewn Llenyddiaeth Gymraeg — maen nhw hefyd yn ysgrifennu eu hunain, fel y gellwch weld yma. Go dda chi, ddysgwyr Glan-y-Nant! Croeso i unrhyw ddysgwyr eraill i ddanfon eu gwaith at y Golygydd i ni gael ei gyhoeddi ar y dudalen hon.

PWYSIG

Cynhelir Cwrs Undydd Cymraeg yng Ngholeg Addysg Cyncoed ar ddydd Sadwrn, Mai 14. Manylion oddi wrth Benny Harries, Neuadd y Ddinas, Parc Cathays, Caerdydd.

Cyfarwyddiadur Sirol

Mae Cyngor Cymraeg Penarth a'r Cylch wedi cyhoeddi cyfarwyddiadur o gymdeithasau Sir De Morgannwg sy'n defnyddio'r Gymraeg. Mae bron cant o eitemau yn y cyfarwyddiadur gan gynnwys capeli, cymdeithasau, ysgolion meithrin a hyd yn oed dafarnau Cymraeg!

Pris y cyfarwyddiadur yw 25c ac mae ar gael oddi wrth gymdeithasau, Siop y Triban neu 129 Heol Redlands, Penarth. Mae'r llawlyfr yn drysor o wybodaeth ac mae'n debyg y cyhoeddir ef yn flynyddol. Danfonir holl elw gwerthiant y llawlyfr tuag at weithgareddau Cymraeg yr ardal.

Yn y cyfamser, mae apêl am y papur deufisol "Y Post" a reolir gan y Cyngor wedi cychwyn, a'r nod cymedrol yw £80. Dylid sicrhau fod unrhyw gyfraniadau tuag at y gronfa yn daladwy i'r "Post" a'u danfon at 129 Heol Redlands, Penarth.

Dymuna Cyngor Cymraeg Penarth a'r Cylch ddiolch i'r Dinesydd am gadw mewn cysylltiad â hynt y "Post", a'r gefnogaeth a roddwyd i gronfa'r "Post" gan ei ddarlennwyr.

Yn y cyfamser, prif swyddogaeth y Cyngor yw trefnu Gŵyl Hydref Penarth eleni. Edifarhawn na all y Cyngor gymryd rhan yng Ngŵyl Haf Penarth eleni oherwydd gofynion ar gymdeithasau aelodol Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Sut bynnag, cyfeirir llawer mwy o ymdrech tuag at sicrhau cynnydd bellach mewn sefydlu'r Wyl Hydref ar ôl y digwyddiad mawr yn y Barri.

Cornel y beirdd

"Rwy'n gweld o bell y dydd yn dod"

Do, mi gefais innau freuddwyd
Fel y Martin Luther King.
Ddringais fry i gopa'r mynydd
Llawn o ofid ac o ing.
Welais yno, yn y pellter
Gwlad 'r'addewid, daear pêr,
Gwlad ein meibion ni a'n merched
Os y rhoddwn iddynt her.

Oll yr ydym blant r'addewid
Dyma'r tynged gawsom ni:
Cawn ni weled daear newydd
'R' un mor hardd â'r un a fu.
Dim caethiwed anwybodaeth,
Difaterwch na, na thrais,
Byd heb ormes, heb casineb
Erbyn Gwyddel, 'Sgotyn, Sais.

Gwelais gwawr yn dod o'r dwyrain
Yn dwyn rhyddid gwir a hedd.
Troais hefyd i'r gorllewin,
Newydd fyd ag unol wedd.
Ond yn bennaf profais cariad,
Ffydd godidog, gobaith pêr,
Yng ngwynebau ein ieuenedid —
Nhw a'u llygaid fel y sêr.

Annwyl blant — nid ynt yn dychryn
Fel nynt a ddaeth o'u blaen.
Os amharod fydd oedolion
Adaef golwg byd a'i sain,
Cymrent nhw ein breuddwyd arnynt,
Ni ddaw diwedd ar ein dydd.
Gweld cyflawniad dydd gogoniant:
Dyna wawr y byd a fydd.

ENID BEECHAM

(wedi byw yn America er pan oedd yn 3 mis oed ac wedi cael ei chodi yn Gymraeg ond heb wybod dim am farddoniaeth a Llenyddiaeth.)

Rwy'n cael rhyw freuddwyd cyson
Sy'n pery dod yn fwan,
Rhagweld yr wyf y dydd yn dod
— Y mawrion, mi ddônt yn fychan.

Mi wela i'r enwau mawrion
Sydd heddiw'n llawn amcanion,
Gwleidyddion pwysig, llawn eu bri
— Mi ddysgant fod yn weision,

Rwy'n gweld y bonheddwr cyfoethog
Ei forwyn, ei brês a'i blas,
Y geiniog a roi yn y llestr ar y Sul
— Troi'n gardotyn a gweddio am ras.

Rwy'n gweld cenhedloedd enfawr
Eu pobloedd diysbryd, llawn trais,
Bywydau diystyr, diwerth — yn dod,
Fel Cymru, yn llawen ei llais.

JOHN LLOYD

Balchder o Gymru ydy'r iaith
Gogoniant ers canrifoedd maith.
Mynegu clod ei hanes hir
Mewn geiriau ffyrnig, miniog, clir.
Bugeilgerdd fwyn yn peintio'r byd,
Byd harddwch gwledig o'r hen Bryd.
Penillion enwog, ystwyth, braf,
Yn dat hlu gaeaf, gwanwyn, haf,
A cerddi serch yn canu clod
Am wyneb merch mwy gwyn na'r ôd.
Anfarwol forwyn Ann, mor Bur:
Yn cynnig i Ddew ei bywyd byr.
Y cawr emynydd, Pantycelyn
Yn cyfansoddi mawl i'r delyn,
Ond O! rwy'n gweld y daw y dydd
Yr hyglod feirdd yng Nghymru fydd
Yr hen elynion, Saesneg, cas,
Cyfeillion nawr, yn tyfu blas,
A dysgu crefft o'r meistri hyn
Cynan, a Crwys ac Eifion Wyn,
A mwynhau'r hwylo tynnu coes
Yng ngwaith Ffowc Ellis a Max Boyce.

M. E. DAVIES
(o Fanceinion)

Y Dref wedi anghofio gan bawb

Ar Dowlais Top mae cymylau du
Yn gyrru drosti fel petai'n llu,
Mae'n wyllo n'awr ac wyla o hyd
Ar dref anghof gan y byd.

Tosturir wrth Dowlais am ei golwg
A'i phentyrrau cochddu cynddrwg,
Nid rhyfedd ei bod yn anfaddeugar,
Hynod ei bod mor amyneddgar.

Oered â'r ôd mae'r ffyrnesi mawr
D'ydy'r nef ddim yn fflachio n'awr,
Ond pan redai'r llif toddedig
Chymerai neb o'i chrefftwyr gwledig.

Mae'n rhaid i'r ieuanc ffoi i ffwrdd
Caeodd y lleoedd lle byddent yn cwrdd,
Mae'r tai a siopau yn adfeilion,
Maes chwarae'r cnowyr yw'r gweddillion.

Gobeithio rhywsut yn y dyfodol
Saerniir tref mewn ffurf priodol
A daw y dydd pan o'r chwalfa,
Codir tref mor deg â Gwynfa.

C.H.

*(Trafeiliwr sy'n gweld Dowlais bob wythnos!
Ymadauodd â'r ysgol yn 14 mlwydd oed heb ddim cymhwysterau; ym 1975, llwyddodd yn yr arholiad Lefel 03 Cymraeg).*

Rhifyn arbennig 'Cân i Gymru'

DWI ISHO BOD
YN SAHIB

Mae'n braf bod yn Indian, gyda'r halibalw etholiadol wedi mynd, a'i set 'Delhivision' fechan, dwi'n siwr, yn rhy wan i godi nodyn o'r 'Eurovision Song Contest' sy'n cymryd lle..... ddim yn cymryd lle..... yn cymryd lle rywdro ym mis Mai. Tybed a oes cystadleuaeth gyffelyb yn y Punjab — "Singh Contest" efallai?

Glywsoch chi am yr Indiad, tad i bump o blant, yn clywed am gynlluniau llywodraeth India i gynniog radio i ddynion a gytunai i gael eu diffrwythloni? Gofynnodd am y driniaeth "Cyn Chwech".

LESYNS YN WELSH,
CHWARE TEG

Mae'n debyg na fydd angen posteri newydd y Mudiad Ysgolion Meithrin yn India. Ar y posteri, fe welir nifer sylweddol o doriadau papur-newydd o hysbysebion yn gofyn am "Ability to speak Welsh", "Knowledge of Welsh" ac ati. Mae'n hyfryd gweld galw cynyddol am wybodaeth o'r Gymraeg. Ond er bod yr hysbysebion yn cyfrannu'n helaeth at apêl y poster, pam fod sefydliadau fel y South Wales Tourism Council, University of Wales Press ac, yn enwedig, Ysgol Gyfun Llanhari yn mynnu hysbysebu am Gymry Gymraeg — yn Saesneg?

STORI WIR, FER, HIR...

Sawl un ohonoch a sylwedd ar y llythrennau -S.A.E. dan ambell i erthygl yn *Y Dinesydd*? "Stamped addressed envelope i beth?" meddyliais. Ond yr wythnos hon, cyhoeddodd Y Cymro ganlyniad cystadleuaeth sgwennu stori Fer, hir, fer. Aeth y drydedd wobwr i Sian Angharad Edwards, Caerdydd — S.A.E. ynte? Llongyfarchiadau iddi, pwy bynnag ydi hi!

TAFODAU TIN

(Dychmygwch fwisg y 'Magic Roundabout' ar y dechrau.)

Mewn cornel o'r ardd hud a neilltuwyd ar gyfer arweinwyr corau Caerdydd, roedd Glynne yn tin-droi heb fedru canolbwyntio ar y newyddion gan fod rhywun arall yn nesáu.

Daeth Alun i'r ardd i gael baton newydd o'r goeden hud ar gyfer seremoni cyhoeddi Steddod Caerdydd.

Lithrodd heibio i Glynne dan fwmian, "O Galanthus

nivalis".

"Beth?" gofynnodd Glynne.

"Lladin," ebe Alun. "Canu O Lili wen fach yn Lladin wyf fi."

"Lladin!" ebychodd Glynne yn synne. "Da chi 'rioed yn mynd i ganu yn Lladin yn y Steddod, dim yn Lladin!"

"Dim yn y Steddod," atebodd Alun fel shot. "Seremoni cyhoeddir Steddod — nid y 'real thing' — gwahaniaeth mawr," sibryddodd Alun.

"Pam ti'n sibrdw?" gofynnodd Glynne.

"Achos dyw holl aelodau'r côr ddim yn gwybod eto. Ti'n gweld, mae ambell i Welsh Nash, Tafod y Ddraig ac ati yn siwr o wrthwynebu, felly mwm yw'r gair nes y bydd hi'n rhy hwyr iddyn nhw dynnu'n ôl."

"Ha, ha, ha," chwaredodd Glynne. "Mae llawer o'r rhain yn fy nghôr i hefyd — bathodynau coed 'dolig ar bron bob car, ond dwi rioed wedi cael trafferth. Ar nos Lun, Mawrth 28 er enghraifft, llyfodd y tafod mwy tanlyd din John Morris mewn cyngerdd mawreddog yn y Castell, i ganu clod i'r Farchnad Gyffredin."

"Versitile" meddai Alun. "Teyrngar," meddai Glynne.

"Cachwrs," meddai Nan yn ddiamynedd wrth sbocio heibio ar hyd y llwybr. "A pheth arall — fy nghôr i gafodd y gwahoddiad yn y lle cyntaf a dim ond am ein bod ni wedi gwrthod mynd yno y gawsoch chi'r gwahoddiad."

"O diar," meddai Alun. "O damia," ochneidiodd Glynne, gan din-droi yn ôl at ei newyddion cyffredinol o Lundain.

(Miwsig i glori)

MAE'R GRŴP YN TALU
— MYNEDIAD AM
DDIM?

Mae'n bur sicr y cafwyd eiw da i Steddod y Barri ar ol rhaglen deyrnged i John Gwilym Jones ym mis Chwefror (gweler *Dinesydd* mis Mawrth), yn enwedig gan fod aelodau Parti Cerdd Dant Aelwyd Caerdydd wedi talu am fynediad — i berfformio!

Ydy hi'n wir na ddiolchwyd i ben o'r perfformwyr ar ddiwedd y noson? Pris bach am berfformiadau graenus a phroffesiynol di-dal fuasai dau gam i gefn y llwyfan i ddweud "Diolch yn fawr," dybiwn i.

cŵl ofn *
sbectol SIAN

SAFWN YN Y BLWCH

CITY OF CARDIFF
HOUSING DEPARTMENTDINAS CAERDYDD
ADRAN TAI

Postal box
at entrance adjacent
to 'Asteys' Cafe

Bwlch llithyrau
ger bwyty 'Asteys'

Yn y rhifyn diwethaf, fe'ch gwahoddwyd i anfon syniadau Jiwiledig y daethech ar eu traws, neu a faglech drostynt, i'r golofn hon. Feddyliais i 'rioed y buaswn yn derbyn enghraifft mor frenhinol a hon!

Ie, dyna gynrychiolwyr hysbysebu swyddogol Eisteddfod Wrecsam! Anodd credu y caf ddim byd sy'n rhagori ar hyn, ond daliweh i yrru!

Ni chafwyd erioed ymateb mwy syfrdanol i erthygol. Ar ôl ymddangosiad ysgrif Nel Meazey yn y rhifyn diwethaf yn ysu am gael Caerdydd yn rhan o'r Pro Gymraeg, daeth enillwir Cymdeithas Cant Arfon y tro hwn o Borthmadog, Nefyn, Groeslon, Pwllheli, Penygroes, Bethel, Cricieth, Abererch, Trefor..... a Chaerdydd! Llongyfarchiadau P. Richards.

Dear Sir,

RE: THE 1977 ROYAL NATIONAL EISTEDDFOD PROGRAMME

Following on from the 1977 Prospectus we have been appointed by the Eisteddfod Committee to handle the advertising in the above programme.

As you have advertised in previous National Eisteddfod Publications in this special Royal Silver Jubilee year, we offer you the opportunity to take space in the programme. The advertising rates are as follows:

Full Page 16.8 cms. type area depth x 11 cms. width £110.00
Half Page 8.3 cms. " " " " " " " " £55.00

CELFF DRWY'R GYMRAEG

Cynhelir cwrs mewn Celfyddyd drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghanolfan Addysg Oedolion yr Eglwys Newydd yn ystod tymor yr Haf. Cwrs byr fydd hwn, yn parhau am chwech wythnos, gyda'r cyfarfod cyntaf ar nos Lun, Ebrill 25ain; astudir agweddau amrywiol ar gelfyddyd a darlunio, ac y mae'r cwrs yn addas ar gyfer dechreuwyr yn ogystal ag arlunwyr mwy profiadol. Y tâl fydd £2.

Mae 'na ddigon o gwyno

wedi bod yn y gorffennol (a nid heb reswm chwaith) am brinder dosbarthiadau nos mewn amrywiaeth o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg; dylai fod yn amlwg i bawb felly pa mor bwysig yw hi i ni gefnogi cyrsiau fel hyn pan weir darpariaeth ar ein cyfer. Os bydd y cwrs hwn yn un llwyddiannus, y gobaith yw y gellir ei ymestyn y flwyddyn nesaf i fod yn gwsr blwyddyn llawn. Am ragor o fanylion, cysyllter â'r Is-Warden, Mr. Len Williams (ffôn: 614392).

Un o'r ffurfiau celfyddyd mwyaf cyffrous i ddatblygu yn ystod yr ugeinfed ganrif yw dawns fodern — ond prin y cyffyrddodd y cyfrwng hwn â Chymru hyd yn hyn. Gellir enwi un Cymro Cymraeg o'r cylch sydd wedi ymroi i weithio yn y cyfrwng hwn, yn llwyddiannus iawn — sef Maldwyn Pate o'r Barri — ond yr hyn sy'n arwyddocaol yw'r ffaith fod Maldwyn wedi gorfod mynd i Efrog Newydd i allu dilyn gyrfa fel dawnsiwr proffesiynol. Fe fu ymgais fyrhoedlog i sefydlu cwmni dawns fodern cenedlaethol, sef Theatr Ddawns Cymru, ym 1974, ond mynd i'r gwellt fu hanes y cwmni hwnnw ar ôl rhyw ddwy flynedd o weithgaredd.

Mwya i gyd o ryfeddod felly yr ymateb sydd wedi bod i gynllun dawns newydd a sefydlwyd yn Theatr Sherman Caerdydd yr hydref diwethaf. Bryd hynny, gyda chymorth ariannol Cyngor y Celfyddydau, penodwyd y dawnsiwr a'r coreograffydd Molly Kenny yn Arbenigwr Preswyl mewn Dawns i'r Gymuned yn y theatr, gyda'r dyletswydd o feithrin dawns yn y gymuned leol, a meithrin cydweithrediad rhwng athrawon dawns a grwpiau dawns oedd yn bod yn y cylch eisoes. Mesur o'i llwyddiant yw'r ffaith bod yna bellach rhyw 500 o bobl yn mynychu ei dosbarthiadau dawns yn y Sherman; yn wir, bu'n rhaid dyblu'r ddarpariaeth a drefnwyd yn wreiddiol.

Beth sy'n gyfrifol am y llwyddiant annisgwyl yma — a beth yw'r argoelion am ddyfodol y cyfrwng cyffrous hwn yng Nghymru? Penderfynodd *Y Dinesydd* fynd at lygad y ffynnon, a chael gair gyda Molly ei hun.

Yn gyntaf i gyd, beth oedd ei chefnidir? Fe'i ganed yn Battersea, ond symudodd y teulu o Lundain pan oedd Molly yn chwe mis oed a symud cyson fu ei hanes wedi hynny: i'r Alban, Gogledd Lloegr, Manceinion, De Lloegr ac yn ôl i Lundain. Canlyniad hyn oll oedd rhyw deimlad o ddiffyg gwreiddiau a dim perthynas ag unlle arbennig; teimla mai dyma un o'r rhesymau y mae hi a'i theulu wedi ymgartrefu mor hapus yng Nghymru erbyn hyn. Ymddiddorodd mewn dawns tra'r oedd hi mewn ysgol a ddilynai ddull Laban o ddefnyddio dawns mewn addysg, a bu'n astudio dawns am saith mlynedd wedi hynny gyda grŵp o ddawnsiwr proffesiynol yn y Toynebee Hall yn Nwyrain Llundain.

Roedd bywyd yn anodd pan ddechreuodd Molly ddawnsio'n broffesiynol; yn y bon, gwnai unrhyw fath o waith arall heb law am ddawnsio er mwyn ennill digon i allu byw. Dim ond rhyw ddau neu dri o gwmnïau dawns proffesiynol oedd yn bod bryd hynny, ac er bod yna ryw faint o waith masnachol, gwaith teledu ac ati

ar gael bryd hynny, fel un a oedd wedi astudio dawns o ddifri, fel celfyddyd ac nid fel adloniant ysgafn, doedd ei chalon ddim yn y maes masnachol. Trodd felly at ddysgu, a chychwyn ar yrfa a ddoi â hi i Gymru yn y pen draw.

Bu'n dysgu yn RADA, LAMDA, New College of Speech and Drama ac amryw o golegau eraill yn Llundain, gwaith a oedd wrth ei bodd gan fod ganddi ddi-ddordeb byw iawn mewn Drama hefyd. Bu yn America am gyfnod yn dysgu yn Efrog Newydd, Texas ac Oregon o dan nawdd prifysgolion yno. Ond un elfen a oedd i ddod yn fwy fwy amlwg yn ei gwaith oedd dysgu dawns fel math o waith cymdeithasol. Gwnaeth lawer o waith gyda phlant tlawd yn Nwyrain Llundain, plant methiedig, a mamau a gwragedd tŷ mewn dosbarthiadau cadw'n heini; mae'n cyfaddef na welai arwyddocâd y gwaith hwn ar y pryd ond daeth yn un o'i phrif ddi-ddordebau yn ddiweddarach.

Ceisai Molly egluro hyn i mi drwy ddweud mai gyda phobl na all *symud* yr hoffa weithio'n bennaf. Dyna'r rheswm pam nad oes ganddi lawer o ddi-ddordeb mewn dysgu dawnsiwr proffesiynol, a pham roedd hi wedi mwynhau dysgu actorion mewn colegau drama, er enghraifft. Teimla fod actorion, ag eithrio'r lleiafrif ymroddedig, heb lawer o syniad sut i ddefnyddio eu cyrff i sut i symud; mae'r actor yn tueddi i feddwl am ei hun fel llais, ac fel meddwl, gan anghofio mai drwy'r corff, i raddau helaeth iawn, y bydd yn cyfathrebu â'i gynulleidfa. Wrth gwrs, mae hyn yn wir amdanom i gyd; dyma un o effeithiau'r math o addysg academaidd a dderbyniwn, sy'n anwybyddu'r ochr gorfforol i'n bywydau a'i ystyried fel rhywbeth atodol y gallwn ddewis ei ddefnyddio ai peidio. Dyna pam y caiff



MOLLY KENNY

Molly'r fath fwynhad o ddysgu pobl gyffredin i'w mynegi eu hunain drwy'r cyfrwng hwn sydd mor ddieithr i'r mwyafrif ohonynt. "That's my thing," meddai, "and I'm afraid there's not nearly enough of my thing going on at present."

Daeth Molly i fyw i Gaerdydd pan briododd hi'r dylunydd Graeme Galvin a oedd yn gweithio i Theatr Caricature ar y pryd yn dylunio pypedau. (Fe fydd gwaith Graeme yn dra cyfarwydd i'r rhai hynny o ddarllenwyr *Y Dinesydd* sy'n rhieni, mae'n siwr, drwy gyfrwng y tair cyfrol wedi eu seilio ar sioeau'r Caricature a ddarluniwyd ganddo: *Y Ddraig oedd yn hoffi miwsig*, *Yn ôl i'r man cychwyn*, a *Wil ac Elin a Ni*, rai o'r llyfrau plant hyfryta i ymddangos yn Gymraeg.) Bu Molly hithau'n gweithio i Theatr Caricature ac yn Ngholeg Celf a Drama Caerdydd. Bryd hynny, sylweddolodd nad oedd Llundain yn atyniad iddi ddim mwyach: roedd llawer o bethau newydd, cyffrous yn digwydd yng Nghymru gyda agor y theatrau newydd ac ati ond, yn fwy na hynny, roedd hi wedi darganfod ffordd newydd o fyw. Roed hyn yn fwy gwir fyth pan symudodd Graeme a hithau a'u mab, Ben i fyw yng Nghlwyd, lle bu Graeme a hithau yn gweithio ar y Cynllun Ansawdd Bywyd yno am dair blynedd.

O safbwynt Ben, roedd byw yng Nghlwyd yn brofiad syfrdanol. Fel y dywed Molly, rhwng ei chefnidir diwreiddiau hi, a'r ffaith mai brodor o Rhodesia a adawodd y wlad honno flynyddoedd yn ôl yw Graeme, doedd gan Ben yntau ddim gwreiddiau, a dim cefndir pendant y gallai

uniaethu ei hun ag ef. Yn sydyn, cafodd ei hun yng nghanol cymdeithas glos, Gymraeg yn Llanarmon yn lâl — a daeth o hyd i ryw fath o hunaniaeth, i'r hyn a oedd ar goll yn ei gefndir. Aeth i'r ysgol leol, gan ddysgu siarad Cymraeg yn rhugl yno; yn awr, â'r teulu yn ôl yng Nghaerdydd, mae Ben yn ddisgybl yn Ysgol Bryntaf ac yn prysur ddysgu Cymraeg i'w frawd bach Joe! "He regards me as a poor foreigner!" meddai Molly gan chwerthin, ac y mae ei hapusrwydd hi o weld bod ei mab yn perthyn i'w gymdeithas yn yr ystyr ddyfnaf yn amlwg i bawb.

Yn ôl i Gaerdydd felly, a chychwyn ar raglen uchelgeisiol a anelai at dynnu pawb i mewn i'r gweithgareddau yn y Sherman: myfyrwyr y Brifysgol a'r colegau lleol, plant ysgol, athrawon a myfyrwyr mewn ysgolion dawnsio lleol ac, yn bennaf oll, pobl gyffredin, ddi-brofiad, gweithwyr swyddfa a siop, gwragedd tŷ ac ati. I'r perwyl hwn, dechreuodd Molly drefnu dosbarthiadau nos a rhai awr ginio er mwyn i bobl felly allu dod iddynt ac y mae llwyddiant anhygoel y dosbarthiadau hynny (deugain neu hanner cant o bobl ym mhob dosbarth) wedi profi gymaint o alw sydd am y math hwn o waith.

Erbyn hyn, teg yw dweud fod Molly wedi cyflawni ei bwriad ac wedi creu canolfan ddawns yn y Sherman, gan wneud hynny heb orfodi dim ar y bobl hynny yn y cylch a oedd eisoes yn ymwneud â dawns, ond gan eu tynnu nhw i mewn hefyd i gyfrannu gwybodaeth arbenigol eu hunain. Felly, ceir yno amrywiaeth mawr o ran cyrsiau: o ddawns gyfoes i ddosbarthiadau ballet clasurol, o ddosbarthiadau symud i ddechreuwyr i "master classes" gyda grwpiau fel y Ballet

Dawns yng Nghymru



THEATR DDAWNS CYMRU (Llun Anthony Crickmay)

Rombert ac Extemporary Dance (cwmni Cymreig sv'n gweithio ym Mhowys yn bennaf).

Ond i adael Caerdydd am funud, beth yw barn Molly Kenny am sefyllfa dawnys yng Nghymru yn gyffredinol? Mae'r sefyllfa'n dal yn wael ar y cyfan, meddai hi; ychydig iawn sydd yn cael ei wneud i hyfforddi pobl ifanc a phlant ysgol, yn enwedig, yn y maes, a'u dysgu i werthfawrogi dawnys fel cyfrwng celfyddydol. Yr hyn sy'n bennaf gyfrifol am hyn wrth gwrs yw diffyg sylw i'r pwnc mewn addysg. Mae Cymru'n dilyn Lloegr yn hyn o beth: does dim statws i ddawns fel pwnc ysgol, a hyd yn oed pan fydd ysgolion unigol yn dewis cynnwys dawnys yn eu rhaglen addysgiadol, gwelir yr hen agweddau traddodiadol yn eu hamlygu eu hunain fyth — bechgyn yn anfodlon i ddawnsio rhag cael eu hystyried yn fenywaidd ac ati.

Y mae torri dawnys allan o'i gefndir crefyddol wedi gwneud niwed mawr, wrth gwrs. Daeth pobl grefyddol, gul i ystyried fod dawnys yn beth drwg yn hytrach na chyfrwng dathliadol, hwyrach oherwydd eu bod yn synhwyro rhyw ansawdd erotig yn synhwyrusrwydd y cyfrwng; fe'i camddechonglwyd fel cyfrwng rhywiol a oedd yn ddrwg i foesoldeb pobl. Er i hyn ddigwydd genhedlaethau lawer yn ôl, y mae'r agwedd hon yn dal yn isymwybodol gryf yng Nghymru: ymddengys fel petae'r syniad syml o fwynhau

bod yn fyw a mynegi hynny mewn ffordd gorfforol yn anathema i lawer o bobl o hyd. Ond pan fydd y teimlad bywiol hwn yn cael dihangfa, y mae'n ffrwydro allan yn nerthol — fel sy'n digwydd mewn gêm rygbi. Yn sydyn, caiff pobl y cyfle i'w mynegi eu hunain yn gorfforol drwy chwarae gêm ac y maent yn falch o hynny; pryd hynny y sylweddolir yr angen am fynegiant corfforol.

Wrth gwrs, dydy'r traddodiad dawnysio gwerin ddim wedi marw o bell ffordd yng Nghymru, a chalonogol yw gweld rhai ysgolion yn gwneud gwaith da iawn yn y cyfeiriad hwn; mae cloeswyr ifanc Ysgol Gymraeg Caerffili o dan arweiniad Randal Isaac yn enghraifft wych o hyn yn ein cylch ni. Ond yn y pen draw, ymdrechion unigolion yw'r rhain, er eu glewedd, a dadl fawr Molly yw gymaint mwy y gellid ei gyflawni pe bai yna fwy o ganolfannau dawnys yng Nghymru lle gallai pobl ddod i ddysgu, a lle gallai athrawon hefyd ddod at ei gilydd i gyflwyno syniadau a hyfforddi dosbarthiadau, yn hytrach na gweithio mewn faciwm.

Cyfeiriai Molly at yr Eisteddfod sy'n cynorthwyo rhyw ychydig bellach drwy drefnu gweithgareddau a pherfformiadau ag elfen o ddawns ynddynt. Mae hyn wrth gwrs yn gymorth yn rhinwedd y ffaith ei fod yn ffordd o gyflwyno dawnys i gynulleidfa eang. Oherwydd dyma'r broblem fawr arall: y

ffraith nad oes yna gynulleidfa ar gyfer dawnys yng Nghymru ar hyn o bryd. Dyma un o'r ffactorau a ddaeth yn amlwg yn ystod y cyfnod byr y bu Theatr Ddawns Cymru yn teithio o gwmpas y wlad.

Mae Molly'n teimlo'n gryf iawn fod yn rhaid hyfforddi'r cyhoedd mewn dawnys eu hunaincyn bod gobaith eu cael yn gynulleidfa i wyllo perfformiadau gan eraill. Gyda'n ffordd ni o fyw heddiw — dydyn ni ddim yn dawnysio ein hunain, na gwneud dim byd llawer ein hunain ond yn hytrach, ei wyllo ar y teledu — hwyrach y gallwn werthfawrogi'n weledol, yn ddeallusol ond allwn ni ddim teimlo. Heb fedru ymdeimlo ag ymdrech gorfforol y dawnyswr, heb wybod sut deimlad yw dawnysio, fedrwn ni ddim ymateb yn iawn i'r cyfrwng.

Beth yw'r ateb felly? Wel, yn gyntaf, mae'n rhaid gwneud mwy yn yr ysgolion, a cheisio newid agweddau yno tuag at ddawns. Yn eilbeth, a hwyrach yn bwysicaf, mae'n rhaid cael mwy o ganolfannau dawnys, a hynny led led Cymru. Does dim pwynt ceisio canoli rhywbeth fel hyn yng Nghaerdydd: am un peth, byddai'n arswydus o ddrud pebai rhaid i bobl deithio o bob rhan o Gymru i fynychu'r dosbarthiadau, a dim ond dawnyswr profesiynol neu bobl â diddordeb arbennig yn y cyfrwng a freuddwydiai am wneud y fath beth. Na, mae'n rhaid gwneud y gwaith hwn yn fanwl ac o ddiifri — ac y mae'n rhaid ei wneud ar

raddfa genedlaethol.

Ac i gloi, beth yw teimladau Molly tuag at Gymru yn gyffredinol erbyn hyn? Ei hateb hi oedd bod Cymru yn dyflant naturiol iddi hi; pan ddaeth hi yma gyntaf, wnaeth hi ddim ceisio gorfodi'r sefyllfa, ond gadael i bethau ddatblygu'n naturiol o'i chwmpas. Tyfodd hithau i garu Cymru. Ar ôl son am ei mab yn ei uniaethu ei hun â Chymru, rhaid oedd iddi hi gyfaddef ei bod hithau wedi darganfod hunaniaeth iddi hi ei hun yma, mewn ffordd wahanol. Mae'n credu'n ffyddiog fod yna angen mawr am y gwaith y mae hi'n ceisio ei wneud ond, gyda gwên, mae hi'n cyfaddef hyd yn oed pe na allai hi weithio, y byddai hi am aros yma p'run bynnag bellach.

Am fanylion pellach ynglŷn â dosbarthiadau dawnys y Sherman, cysylltwch â Molly Kenny, Ffôn 396844. Mae'r dosbarthiadau i gyd yn rhad ac am ddim.

Dynion yn unig.....

Mewn cyfarfod a gynhaliwyd yn nhafarn y Pantmawr nos Wener, Mawrth 11eg, sefydlwyd cymdeithas Gymraeg i ddynion yma mhentref Rhiwbina. Cafwyd ymateb da i'r cylchlythyr a anfonwyd allan, a disgwylir y bydd oddeutu deugain o aelodau yn perthyn i'r gymdeithas erbyn y tymor nesaf. Bydd y gymdeithas yn cyfarfod ar yr ail nos Wener o bob mis, gyda'r tymor yn ymestyn o Fedi hyd Ebrill.

Er mwyn cael y gymdeithas ar ei thraed, penderfynwyd mai da o beth fyddai cynnal cyfarfod yn fuan. Felly, mae'r ddau gyfarfod canlynol wedi eu trefnu cyn dechrau tymor y gaef ar Fedi'r nawfed.

Ebrill 29ain — Islwyn Jones, Mai 13eg — Ifor Rees,

Gellir cael manylion pellach oddi wrth naill ai'r Cadeirydd, David George (ffôn: 66209) neu'r Ysgrifennydd, Bob Roberts (ffôn: 67903).

ATGOFION "HEN" ATHRO

"Mi welwn ni chi felly fore dydd Llun am wyth o'r gloch, M'sieu l' assistant", ebe'r Prifathro gyda gwên wrth inni ysgwyd llaw. "Wyth o'r gloch!?"

"Ha-ha! Ie, M'sieu — 'rydym ni'n foregodwyr yn Ffrainc wyddoch chi! Da bo'ch!"

"Sut un ydi'r Prifathro?" holodd Mme. Boulanger, pan ddychwelais i'r llety.

"Clên iawn", atebais "Tipyn o dynnwr coes, 'ddyliwn i. Wyddoch chi'r peth dwytha ddeudodd o wrtha'i? "Mi welwn ni chi fore dydd Llun am wyth o'r gloch!"

"Wrth gwrs. Dyna pryd mae'r ysgol yn dechrau."

A minnau wedi meddwl fod Ffrainc yn wlad wareiddiedig! Brathais fy nhafod rhag mynegi fy naddrithiad i Madame, a derbyn cysur o'r ffaith mai un wers un unig oedd gen i ar ddydd Llun.

Yn ddiweddar, clywais am berson plwyf ym Meirion — mae wedi ymddeol bellach — fyddai'n mynd i wasanaeth y plygain yn ei byjamas. Na'm camddealler. Nid oedd dim cableddus, nac hyd oed anwedus yn ymddygiad y brawd, gan ei fod bob amser yn gofalu doddi ei wenwisg dros ei ddillad nos ar yr achlysuron hynny. Os — fel y digwyddai nid yn anfyfnych, ysywaeth — na chai gynulleidfa, yn ôl i'r Ficerdy, taro'r wenwisg ar yr hoelen, ac i'w wely cynnes ac ef tan amser cinio.

Paham, felly, y dylwn innau gywilyddio oherwydd mai dychwelyd i'm gwely yn 75, Avenue de Verdun a wnawn ar foreau tywyll, anwydog misoedd y Gaeaf, ac aros yno — nid tan amser cinio — ond nes i'r niwl godi oddi ar wyneb gwastatir y Bordelais?

O ran pryd a gwedd a moelni caboledig, nid oedd y Prifathro'n anhebyg i gyn-olygydd Y *Faner*. Perthynai iddo hefyd, fel arfer, yr un hynawsedd a sirioldeb, ond nid, fodd bynnag, gred y gŵr dawnus hwnnw mewn Heddychiaeth. Cefais brawf o hynny rhyw b'nawn, pan ddaeth i mewn i'm dosbarth, ac wedi'r cyfarchiad arferol — "Bonjour, Monsieur Miles (yn odli, yn y dull Ffrengig gyda 'kils' ac nid 'smiles') ca va?" — a holi a oedd unrhyw ddisgybl yn rhoi trafferth imi.

Oedd, yr oedd yna un. Hen hogyn bach stimddrwg, dan-din, â rhyw ddawn ryfeddaf i dynnu pawb yn ei ben, yn blant yn ogystal ag athrawon. Cyfarfûm â chymrodyr Cymreig a Seisnig iddo'n ddiweddarach, ac y mae'n debyg fod ei debyg i'w cael ym mhob ysgol, ym mhob gwlad, ac ym mhob cenhedlaeth.

"Celui-la — il m'embête un peu," meddwn, heb fwriadu dim drwg mawr i'r bachgen.

Duodd wyneb y Prifathro a brasmagodd tuag at ei ysglyfaeth.

PAN! PAN! PAN!

(Gan mai dyna sut bydd llenorion Ffrainc yn cyfleu sŵn pannu, a chan mai disgrifio Ffrancwr yn pannu yr ydys, nid amhriodol yw gwneud yr un modd.)

PAN! PAN! PAN!

Tair pelten arall, gyda cledr a chefn a chledd llaw. Yna llifeiriant o eiriau difenwol, di-dostur:

"Mae M'sieu wedi bod yn dangos ei hun, ydi o? (PAN) Wel, M'sieu Ewach (PAN!), M'sieu Snichyn (PAN!), M'sieu Hurtyn Anllythrennog (PAN! PAN! PAN!), mae'n rhaid i ni ddysgu gwers ichi (PAN! PAN!) Tydi Monsieur Mils ddim wedi dod yma'r holl ffordd o Loegr i ddysgu Saesneg ichi — *Pardon*, Monsieur Mils . . . o Gymru — i chi gael gwneud hwy! am ei ben o . . ."

Mewn seminar yng Nghyfadran Addysg Coleg y Brifysgol, Aberystwyth, flwyddyn yn ddiweddarach, cofiais am yr olygfa hon, ac am yr euogrydd a deimlwn wrth wrando ar y bychan yn wylo ac un ochneidio ymhell wedi i'r Prifathro adael yr ystafell.

Soniai'r tiwtor, gwraig ryddfrydig, garedig, flaengar ei syniadau, am briodoldeb gwahardd cosbau corfforol yn llwyr yn ein hysgolion.

"Mae hyn wedi disgwydd eisoes, wrth gwrs, mewn nifer o wledydd," meddai. "Cymerwch chi Ffrainc, er enghraifft: os bydd athro o Ffrancwr yn meiddio cymaint â chyffwrdd â blaen ei fys, fe fydd y rhieni'n sicr o ddod ag achos cyfreithiol

Ysgol Gyfun Rhydfelen
yn cyflwyno

AGI AGI

Drama o faes y bêl hirgron!

Neuadd yr Ysgol 7.00p.m.

Nos Wener 29 a Nos Sadwrn 30 o Ebrill

yn ei erbyn, ac fe all yntau dderbyn cosb drom iawn . . . Ych chi yn y cefen am ofyn cwestiwn?"

Ategwyd f'adroddiad am y defnydd a wneid o gosbau corfforol yn y *Cours Complementary "Louis Barthou"* gan fyfyrwr arall a dreulaisai flwyddyn yn Ffrainc fel *assistant*. Mewn ysgol breswyl fawr yn Lyons y bu ef. Yno, byddai'r *pions* — myfyrwyr a gyflogir i ofalu am ddisgyblaeth yr ysgol — yn deffro drwg-weithredwyr gefn nos, ac yn eu gorfodi i redeg i fyny ac i lawr grisiau serth; neu'n eu fflangellu â thyweli gwlybion; neu, os digwyddai'r trosedd fod yn un go ddirifol, yn taflu'r llanc i fath dŵr oer, a'i ddal yno am sbel.

Cyfeiriasom hefyd at adroddiadau a ymddagosasai yn y Wasg Ffrengig am *pions* mewn dwy *lycée* ym Mharis, yn cymhwyso ar gyfer cosbi disgyblion, ddulliau trydanol eu brodyr a'u cyfeillion yn Algeria'r dwthwn hwnnw o arteithio Arabiaid.

Dyna'r tro cyntaf, ond nid yr olaf, imi sylwi ar agendor llydan rhwng dameianiaeth addysgwyr a phrofiad athro.

GARETH MILES

(I'w barhau)

(Ymddangosodd yr erthygl hon gyntaf ym *Muletin UCAC*, Gaeaf 1976.)

Oriel

53 Heol Siarl Caerdydd
Teliffon: 0222 395548

Poster newydd yn y gyfres
Posteri Cerddi:

ABERDARON/CYNAN £1.00

Yn barod yn fuan.

PLATIAU LLYFRAU

2 wahanol becyn yn

cynnwys lluniau adar ac
anfeiliaid

Llyfrau Recordiau

Cylchgronnau Posteri

Cardiau Cyfarch

Teithio'r Byd

Cyfrol o gerddi Cymraeg gan y gŵr ifanc o Gernyw, Tim Saunders, yw'r ail gyfrol yng Nghyfras y Beirdd Answyddogol a gyhoeddig gan Y Lolfa. Mae maes diddordebau'r bardd ifanc hwn (sy'n rhugl mewn Cernyweg, Cymraeg a Gwyddeleg) yn eang dros ben, a'i awen yn gwibio ar draws gwledydd, diwyllianau a chyfnodau gwahanol.

Gwendid Tim Saunders hwyrach yw ei duedd i lefaru'n apocalyptaid ar brydiau: mae'r geiriau'n gallu ymddangos yn aruchel ac yn ddwys ond, o'u cymryd at ei gilydd, aneglur iawn yw'r ystyr ar brydiau. (Mae yma rai gwallau iaith a gramadeg sy'n gwneud y cerddi'n fwy "tywyll" na'r bwriad ar adegau, dybiwn i.)

Cawn argraff gyson fod penrhwydd wedi bod yn ormod iddo a bod rhyw fath o derfynau, boed hynny o ran testun neu adeiladwaith cerdd, yn angenrheidiol er mwyn gwneud iddo ganolbwyntio a crisialu ei fynegiant. Pan fydd ei destun yn rhy gyffredinol, mae'r gerdd yn dirywio i fod yn rhyw floeddio digyfeiriad yn erbyn pawb a phopeth sy'n llai effeithiol am nad oes iddo nod bendant.

Ar y llaw arall, pan gaiff afael ar bwnc penodol y teimla'n gryf amdano, gall hynny ddisgyblu rhywfaint arno ac esgor ar lefaru effeithiol iawn — megis yn ei soned i Pablo Neruda:

"O'r llyfrau llog try'r tafod tân yn glead

A'th gerddi llym dy hun o'th arch a glywi."

Esgorodd ei fyfyrddod ar ddioddefaint yr Iddewon yn ystod y rhyfel ar y gerdd orau yn y gyfrol, yn fy marn i, sef *Ymddiheuriad*.

Mae yma nifer o gyfieithiadau diddorol o'r Gernyweg a'r Wyddeleg; heblaw am "Anhysbys" ar un neu ddwy o'r Wyddeleg, ni roddir enw'r bardd felly rwy'n cymryd yn ganiataol mai cyfieithiadau o waith Tim ei hun yn yr ieithoedd hynny ydynt.

Mae meddwl craff a gwybodaeth eang y bardd hwn yn ogystal â'i ddawn brydyddol yn gwneud hon yn gyfrol i bori ynddi ac i fyfyrto trosti am amser.

"Teithiau" gan Tim Saunders. *Gwasg y Lolfa 75c.*

LLONGYFARCHION

Ein llongyfarchion i Rhodri Jones, Heol Betws-y-Coed ac Ann Sterry, Heol Beulah, ar eu llwyddiannau mewn arholiadau yn ddiweddar. Bydd y ddau yn cychwyn gyrfaoedd newydd mewn colegau ym mis Medi. Dymuna'r Dinesydd rwydd hynt iddynt.

Hiwmor Y Glöwr

Nid y straeon eu hunain sydd mor arbennig ynglŷn â'r casgliad hwn o hanesion o Gwm Tawe ond yn hytrach y dweud. Ni fydd hynny at ddant pawb, wrth gwrs: ni welwyd tafodiaeth Cwm Tawe wedi ei gosod i lawr fel hyn er adeg cyhoeddi cyfrolau'r bardd Abiah Roderick ar yr anfarwol Matilda!

Wrth gwrs, mae 'ni ddigon o ddoniolwch, cwmpo mas, a throeon trwstan yn y straeon hyn i'w gwneud yn ddfyr iawn i'w darllen. Dim ond dweud yr ydwy i fod olion clir yma mai clytwaith o jocs byr a dywediadau doniol am gymeriadau arbennig oedd deunydd erai yr awdur, a bod ei ymdrechion i weu'r cwbl at ei gilydd i ffurfio stori fer ddim yn llwyddo bob amser. Mae rhai (*Barti Socs*, er enghraifft) yn llwyddo fel straeon byrion; tecach fyddai disgrifio eraill fel *Rwy'n Cofio a Cawl Motryb Jên* fel casgliadau o *anecdotes*, ys dywed y Sais (dyna'n union beth yw adran olaf y llyfr, *Lloffion*, wrth gwrs.)

Ond rhyw beth gyda llaw yw hynny: mae'r cymeriadau, y disgrifiadau ohonynt ac, yn bennaf oll, eu ffordd o siarad, yn fendigedig o fyw. Mae'n siwr fod gan yr awdur hwn glust a chof fel recordydd tãp!

Enghraifft fach o naws y llyfr i gloi. Mae'r fenyw drws nesa yn gofyn i fam Evan John, sydd wedi gorfod ymfudo i Loegr yn ystod y dirwasgiad, os ydwy wedi llwyddo i gael gwaith eto:

"Oti wir. Ma' e wrth 'i fodd hefyd."

"Beth ma' e'n 'neud?"

"Gwitho miwn crematorium, a chal 'i dalu'n dda am losci Saeson."

"Hiwmor y Glöwr" gan Edgar ap Lewys. *Gwasg y Lolfa, 85c.*

Mwy o'r Maes

Adroddiad Pwyllgor Tai Bach Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd.

Cadeirydd: W. C. Jones

Cynhaliwyd cyfarfod pwysig o'r pwyllgor uchod yn nhŷr ysgrifennydd, y Fonesig Mary De Drucess i drafod mater brys — sef papur i'r Wyl. Agorwyd y drafodaeth gan Mr. O. P. Peters a fynegodd farn gref iawn ynglŷn â chael papur uniaith Gymraeg. Aeth mor bell â dweud pe na chai ei ffordd y byddai'n rhaid iddo ymddiswyddo o'r pwyllgor a golchi ei ddwylo o'r holl fater.

Cytunwyd ag awgrym Mr. Peters ac aethpwyd ati i drafod pa argraffwyr y dylid eu hystyried at y gwaith; cwmni Muck-layers oedd yr un amlwg, er y gallent fod yn ddrud gan y byddai angen talu am benodi Cymro Cymraeg i ddarllen y profenni. Yn sydyn, yng nghanol trafod synhwyrol, neidiodd gŵr wyneb cynddeiriog-goch ar ei draed a gweiddi, "Y Dinesydd! Mae'r Dinesydd yn bapur digon budr — defnyddiwech hwnnw, 'dyw e'n ffit i ddim byd arall. Mae o yn Gymraeg ac mi safiwch dipyn o arian i'r Steddfod yr un pryd — fe gewch chi o'n rhad ac am ddim. O cewch, yn rhad ac am ddim dyna un o'u triciau clyfar Nhw, i geisio gorfodi'r fath fudreddi arnon ni i gyd! Gan nad ydyn ni'n prynu'r papur, fedrwn ni ddim ei wrthod mae o'n treiddio i bod cartref" Ar hynny, bu'n rhaid atal y dyn a'i dywys allan. Dysgwyd yn ddiweddarach mai aelod o un o eglwysi Annibynnol blaenllaw Caerdydd ydoedd; roedd wedi mynd ar goll, ac wedi cerdded i mewn i'r ystafell gan feddwl ei fod yng nghyfarfod pwyllgor Cymanfa'r Eisteddfod. Ar ôl trafodaeth hir, penderfynwyd gofyn i bawb i ddod â'i bapur ei hun.

Yr ail eitem ar yr agenda oedd lleoliad y tai bach ar y maes. Teimlai'r Pwyllgor yn rhwym o gael safleoedd gwell eleni gan fod y maes mor bell o ganol y ddinas a'i chyfleusterau amlwg. Awgrymodd Mr. Jeri U. Lewis y dylid troi adeilad mwyaf y maes yn Ystafell Orffwys — gyda chawodydd a baddonau — a'i alw y 'Pafilŵn'. Awgrymwyd gwellaint gan Mrs. De Drucess sef y dylid atgyfodi'r hen bafilŵn wrth ochr yr un newydd ar ganol y maes; gellid cael pob cyfleuster eisteddfod mewn un man wedyn. Carthodd P. W. Pierce, (Prif Arolygydd Carthffosiaeth y ddinas) ei lwnc a gweiddi, "Mae'n rhaid cael bidet yn yr adeilad!" Pw-pwiwyd y syniad hwn gan Mrs. De Drucess a deimlai fod lleoliad gwledig yr Wyl yn golygu fod digon o feudai o gwmpas y maes eisoes.

Penderfynwyd gofyn i'r Pwyllgor Gwaith i weithio ar y syniad o Lafilŵn a hefyd i ystyried gwahodd yr etifedd i orsedd Lloegr i ddod i agor yr adeilad yn swyddogol mewn seremoni sumboliadd syml ynghyd ag aelodau blaenllaw o Orsedd y Beirdd.

O dan Unrhyw Fusness Arall, derbyniwyd cais gan Ganol-fan yr Urdd am hawl i werthu danteithion megis *Knickerbocker Glories* i'r torfeydd a fyddai'n ymgasglu y tu allan i'r Pafilŵn bob dydd. Teimlid y byddai hyn yn gwneud y cyfnod y byddai'n rhaid i bobl aros cyn cael mynediad yn un mwy plerusr yn ogystal a chodi arian sylweddol i goffrau'r Urdd.

Terfynwyd y cyfarfod drwy ganu "God Bless the Prince of Wales."

Drama newydd

Urien Wiliam

Nos Sadwrn, Mawrth, 26ain, bu Cwmni Drama Abertawe yn perfformio Tedi Bêr, un o ddramâu ein dramodydd lleol, Urien Wiliam, Y Barri, yn neuadd Coleg Addysg Cyncoed. Yr Urdd (ac yn fwyaf arbennig, Aelwyd Heol Conwy) oedd yn trefnu'r noson, ac er i lu o bobl fod wrthi'n galed yn gwerthu tocynnau, siomedig oedd y gynulleidfa —

ond mae hon yn hen stori, mwyach yng Nghaerdydd. Tasg anodd i unrhyw gwmni yw perfformio o flaen tyrfaf fechan achos mae ymateb y rhai sy'n gweld ac yn gwrando mor bwysig. Eto i gyd, cafwyd perfformiad digon hwylus er bod yr offer llwyfan yn ein hatgoffa'n lwy: am goleg addysg nag am blatfform stesion i'r byd arall!

NEWYDDION CWM RHYMNI



T.J. HARRIS

Bydd marwolaeth diweddar Mr Thomas John Harris, Rhymini, yn golled fawr i'r dref ac fe deimlir y golled yn arbennig yng nghapel Moreia ac yntau'n flaenor hynaf y capel yn 87 oed. Roedd yn gymeirad hoffus, ifanc ei ysbryd ac yn llawn o lawenydd.

Ei brif ddiddordeb oedd cerddoriaeth. Cyfansoddodd emyn swynol 'Y Clychau' i Gymanfa Moreia y llynedd a chafodd gryn foddhad yn dysgu'r plant a'r oedolion i'w ganu. Roedd yn arweinydd Cymanfaoedd Canu Rhymini llawer gwaith ac roedd yn enwog led led Cymru am safon ei waith.

Fe'i anwyd yn Rhymini yn 1890. Siopwr oedd ei dad ac yntau hefyd yn ddiagon a thrysorydd Moreia am flynyddoedd lawer cyn ei farw yn 102 oed. Byddai T.J. yn son llawer gwaith am ei dad — 'Yr hen Dafydd' i bobl yr ardal — ac am y ffordd y byddai'n diffodd y golau pan oedd yntau, T.J., yn ymarfer yn hwyr wrth y piano ond roedd T.J. mor daer roedd yn parhau i ganu'r offeryn yn y tywyllwch.

Trwy ddyfalbarhad gartre enillodd ei matric yn ifanc iawn ac aeth i Goleg y Brifysgol yng Nghaerdydd i astudio Cerddoriaeth a Chymraeg. Bu wedyn yn organydd capeli ac athro ysgol ym Mhenclawdd ac Abertawe hyd ei ymdeol. Dychwelodd wedyn i Rymni lle bu'n rhoi gwasanaeth i'r capel am dros ugain mlynedd.

Roedd ar ei orau yn y cwrdd gweddi yn son am gerddoriaeth a cherddorion enwog ac hefyd am ei hoff farddoniaeth, yn arbennig barddoniaeth T. Gwynn Jones. Parhaodd ei frwdfrydedd yn y pethe hyd y diwedd ac roedd vn esiampl i bawb wrth ger-

dded yn agos at filltir i'r cwrdd ar fore Sul. Atgofon melys fydd gyda ni pobl Rhymini, amdano. Braint oedd ei adnabod ac mae'r bwch yn un mawr ar ei ôl.

MELYS MOES MWY!

Fe fydd Cylch Meithrin newydd yn agor yng Nghaerffili ar ôl y Pasg. Fe'i gynhelir yn Neuadd y Parc a bydd yn agored i blant sy'n byw yn rhan ddeheuol y dre — a'r Cylch Meithrin yn Nhonyfelin yn gwasanaethu'r gweddill. Bydd ar agor bob bore o'r wythnos o 9.30a.m. hyd hanner dydd gan ddechrau ar fore Dydd Mawrth, Ebrill 26. Mae lle yn y cylch i ugain o blant ac mae dau ar bymtheg wedi cofrestru eisoes. Ceir rhagor o wybodaeth gan y drefnyddes, Mrs Margaret Griffiths, Lôn y Barri, Caerffili (Ffôn: 867909).

Erbyn hyn mae yn agos at gant a hanner o blant yn mynychu ysgolion meithrin Cymraeg yng nghylch Caerffili. Mae'n ymddangos nad yw'r awdurdod addysg wedi defro i sylweddoli holl oblygiadau'r tyfiant aruthrol hwn. Mae Ysgol Gymraeg Caerffili eisoes yn orlawn ac mae'n rhaid cynllunio ar fyrder, felly, os yw'r plant sy'n mynychu'r cylchoedd meithrin heddiw am gael y cyfle o fwynhau manteision addysg Gymraeg yfory.

GŴYL DDEWI

Ar wahan i'r ciniawa a'r eisteddfota arferol cynhaliwyd noson o ddathlu ychydig yn wahanol i'r arfer yn y Cwm yn y Ganolfan Gymdeithasol ym Mhenpedairneol. Mae'r stadau tai newydd yn y rhan hon wedi denu nifer o Gymry Cymraeg a'r bywyd Cymreig wedi'i hadnewyddu fel canlyniad. Prif atyniad y noson oedd y grwp 'Ar Log' a rhoddwyd yr elw i'r gymdeithas henoed leol.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CAERDYDD AWST 7-12 1978

Cofiwch am y Cyhoeddi

Cyngerdd Ieuencid a Phlant nos Iau, Mehefin 30, 1977.

Theatr yr Ymylon yn perfformio 'Siwan', Saunders Lewis, Gorffennaf 1, 1977.

Cyngerdd Côr yr Eisteddfod a Cherddorfa'r BBC, Gorffennaf 2, 1977.

Am y manylion, anfonwch at:

Y Trefnydd, Swyddfa'r Eisteddfod, Adran y Parciau, Parc Heath, Caerdydd CF4 4EP.

DISASTER AT TYNEWYDD KEN LLEWELLYN


Y mis hwn yw canmlwyddiant y trychineb yng Nglofa Tynewydd yn y Rhondda.

I nodi'r achlysur, mae Cyhoeddiadau ap Dafydd Cyf wedi ailargraffu hanes teimladwy Ken Llewellyn o'r drasiedi.

Mae copiâu o *Disaster at Tynewydd* ar gael oddi wrth

CYHOEDDIADAU
AP DAFYDD CYF,

55 Lower Cathedral Rd.,
Caerdydd CF1 8LW. Pris
£1.40 (gan gynnwys cludiant).



BETH DDYWEDWYD GAN Y PAPURAU PAN GYHOEDDWDYD Y GYFROL GYNTAF OLL:

"...the story of the Disaster at Tynewydd ranks high in terms of raw heroism."

COAL NEWS

"This incredible story of bravery and endurance in the face of almost insurmountable odds is recalled in *Disaster at Tynewydd*..."

SOUTH WALES ECHO

"...so well written that it often reads like a first rate novel.

...must become a classic of its kind."

SOUTH WALES ARGUS

YR URDD: Dosbarth Caerdydd

Mae gwaith y pwyllgor dosbarth bron ar ben erbyn hyn gan fod trefniadau am weddill y flwyddyn ysgol gyfredol eisoes ar y gweill "Dim ond un cyfarfod sy'n weddill o hyn hyd ddechrau gwyliau'r haf, ac fe gynhelir hwnnw yn y Ganolfan ar nos Lun, Mai 9fed.

Daeth rhaglen yr ysgolion cynradd i ben ar Fawrth 21ain gyda noson gymysg o ganu a chwaraeon. Bydd y gwaith yn ailgychwyn ddiwedd mis Medi. Bu'r rhaglen eleni yn hynod o boblogaidd gyda'r plant a chafwyd cefnogaeth dda i'r gweithgareddau.

Bu'r ddwy Eisteddfod Gylch yn llwyddiannus eleni eto, gyda chystadlu brwd. Roedd llawer o'r buddugwyr yn amlwg yn yr Eisteddfod Sir a gynhaliwyd yn y Barri ar Fawrth 11eg a'r 12fed. Ein gobaith yw y byddant yr un mor lwyddiannus yn y

Genedlaethol yn y Barri dros y Sulgwyn.

Daeth tymor Mr. Alun Preece i ben fel Trysorydd y Pwyllgor Dosbarth i ben. Cyfrannodd Alun lawer er sicrhau fod y seiliau ariannol yn weddol gadarn. Diolchwyd iddo am ei gyfraniad yn y Pwyllgor a gynhaliwyd ar Ionawr 31ain.

Dyddiad i'w nodi ar gyfer y tymor nesaf ydy'r 14eg o Fai pan fyddwn yn cynnal ymgyrch i noddi nofwyr. Cynhelir yr ymdrech hon eleni yn y Ganolfan Chwaraeon yng Ngerddi Soffia a bydd yr elw yn mynd tuag at Ganolfan yr Urdd. Fe ddylai hon fod yn noson dda ond i ni allu sicrhau digon o nofwyr o blith oedolion a phlant. Os hoffech wybodaeth bellach, cysylltwch â Mr. G. Davies, 30 Dinas Rd., Penarth.

GARWYN DAVIES

GWYBODAETH GWYBODAETH

102 HEOL ALBANY, Y RHATH, CAERDYDD.

Siop sy'n arbenigo mewn crefftwaith gan bobol leol a chrefftwyr o bob rhan o Gymru, yn cynnwys gwaith lledr, crochenwaith, gemwaith, gwaith coed, teganau, dillad a lluniau. Lle ardderchog i brynu anrhegion o bob math.

DYDDIADUR DYN DWAD

6. AR Y CLWT

Dwi ar y clwt. Wedi cal yn hel allan o'n fflat os na dyna fysach chi'n i alw fo. Y math o le lle mae'r blydi lot ond y bog wedi cal i stwffio i mewn i un rŵm. Fuo raid i fi smalio 'mod i'n stiwdant i gal fannu. Mi ddeudodd Frogit, un o'r clenia o'r stiwdants yn yr 'Ely' wrtha fi am fynd at ryw fodan yn y coleg, rhoid 'i enw fo a gofyn am fflat go rad yn Roath. Mae saith sgrn am un rŵm yn dipyn o dolc ond rodd y lle'n handi ar gyfar yr 'Ely', y 'George', y 'Claude' a'r 'Crwys', felly dodd alci fatha fi ddim yn cwyno, nag oedd?

Deud gwir, dwi'n falch o fod o 'na hefyd. Pobol wirion ar y diawl yn byw yno. Y Paki drws nesa odd isho menthig petha o hyd, a'r peth 'gosa welsoch chi rioed i fwnci yn byw uwch y mhen i ac yn deud dim ond 'Cool it man' bob tro byddwn i'n gwyltlio fod 'i record-player o'n rhy uchel.

"Blydi 'el. Some of us got to work in the morning mate", medda fi.

Rodd o'n iawn yn yr atic yna achos bod yr hen gnawes bia'r tŷ yn byw ar y gwaelod a ddim yn 'i glywad o. Tasa hi'n gwbod mi fysa hi fyny 'no fel shot. Dim genod ar ôl deg. Un bath yr wsnos ar ôl gofyn iddi hi roid yr imyrion on awr o flaen llaw. Dim straenio cabij yn y sine yn y bathrwm. Dodd 'na ddim sine yn ych rŵm chi, felly os oeddaech chi mor wirion â berwi cabij dwn i ddim lle, ddiawl oeddach chi fod i straenio fo.

Ron i wedi cael uffar o sesh dda nos Sadwrn, ar crawl efo'r hogia, o'r 'Claude' i'r 'Crwys' a landio fyny yn yr 'Ely' i ganu' a dodd hi 'modd naturiol bod ni'n mynd lawr i'r 'Casa Martinez' yn St. Mary St. i gario mlaen. Wath i fi gyfadda ddim nad ydw i wedi cael llawer o lwc efo fodins es pan ydw i yn Gaerdydd yma. Dipyn bach gormod o sgruffy dwi'n meddwl i'r fodins bach sidet Cymraeg 'ma. Ond ddath y fodan 'ma fyny ata fi tra oeddwn i'n yfad gwin efo Stan Crossroads yn y 'Casa'. "You want dancing?" medda hi wrtha fi.

Ffordd ryfadd uffernol o ddeud y peth on i'n meddwl, ond fyswn i'n nyts i wrthod. Cân ara deg odd hi ag odd y fodan yn closio ata' i'n uffernol wrth ddownsio, a dyma hi'n dawnio arna fi — ti'n O.K. yn fan hyn Gron Bach! Odd hi'n llyfu'n loesyn coch i a deud bod hi'n licio'r 'kiss-curls' tu nôl i 'nghlustia fi. On i ddim yn gwbod bod gin i rai. Ar ôl rhw lasiad neu ddau arall o win a mwy o swsio a gwasgu, mi ddeudish

i wrth Stan bod ni'n mynd.

"Bob lwc", medda Stan. "Ond smo ti'n erfyn llawer o fe."

Nyrs odd y fodan 'ma. Gwallt coch fatha finna. Adar o'r unlliw ia? Ond odd hi'n deud na fysa hi byth yn medru mynd yn ôl i'r hostel yn yr Heath radeq yna o'r nos. Mi fysan nhw'n deud y drefn yn uffernol. Ro'n i'n gwbod bysa'r hen sguthan yn y tŷ cw'n siwr Dduw o'n dal ni, ond lle arall aethan ni de?

Bore wedyn tua saith o'r gloch, mi sleifion ni allan o'r tŷ ag o'n i'n teimlo'n rêl boi wrth nôl y 'News of the World' ar ôl rhoid y fodan. Freeda oedd 'i henw hi, ar y bys. Wedi llwyddo mynd heibio i gard Fort Knox, ia? Nesh i ddim meddwl mwy am y peth, ond pan ddesh i adra o'r gwaith nos Lun, dyna lle'r oedd hi. Mrs. Wilcox, yn sbio'n ddu arna i wrth waelod y grisia. Heb yngan gair o'i phen, dyma hi'n rhoid darn o bapur i fi.

"Notice to quit".

Os o'n i'n meddwl 'mod i wedi'i thwylio HI, ro'n i'n gwneud coblyn o fistec. Dydy Mrs. Wilcox ddim wedi cysgu noson gyfa o gwsg ers pan gollodd hi 'i gwr bedair blynedd yn ôl. On i dipyn o bit drosti hi, deud gwir, ac mi fyddwn i'n dwad â darno sbâr o garpad iddi o'r gwaith. Darna fysa'n gneud yn iawn iddi o flaen yr aelwyd, ia. Ond fysa holl Axminsters y byd ddim yn achub y sefyllfa bellach.

Nid yn unig odd hi'n gwbod bod Freeda wedi bod acw drw'r nos, ond mi fydd Mrs. Wilcox hefyd yn mynd drwy rŵms y pedwar hogyn yn ei thŷ hi bob dydd, yn llau a gwagio'r bins a symud ych petha chi o gwmpas. Esgus da i fysnesu o'n un meddwl. A rodd beth welodd hi ar y Chest-of-Drawers wedi gneud iddi wylltio go iawn.

"I don't 'ave a son. But if I 'ad, I 'ope 'e wouldn't behave the way you do", gesh i.

A fanna gollish i'n limpin. Rydach chi'n gorod gwenu a ffalsio a llyfu tinau rhyw

grachod yn Howells drw'r dydd, a deud 'Syr' wrth fosus ma'n gas gynnoch chi nhw, ond does 'na ddim uffar o berig bod neb yn mynd i ddeud wrtha i sut i fyw yn amser yn hun, heb son am fynd drw mhetha fi a bysnesu. "Stuff your notice", medda fi. "I'm going now."

A fyny a fi i bacio 'nghesus a chyn i chi ddeud Jac Robinson, roeddwn i'n cerddad dros y rhiniog efo oes ymhob llaw.

"Merry Xmas to you too", medda fi wrth adael y ddynas yn sbio fel ysa rhywun wedi dwyn 'i chaws hi. A dyma fi'n bangio'r drws gymaint a fedrwn i.

Dim ond ar ôl i fi gerddad rhyw ganllath lawr lôn yn dal i regi a rhywo dan y ngwynt nesh i sylweddoli be' o'n i wedi neud. Lle'r awn i? Dwi wastad wedi deud bod cwrw'n atab bob problem felly lawr â fi erbyn amser agor i'r 'New Ely'. Drwy lwc, pwy oedd yna yn ffyddlon fel y dur uwch 'i 'Guinness' ond Jero Jones y dysgw'r.

"Shwmai, Gron bach. Rwyf fi yn siarad yn ardderchog nawr. Cas Cymro a sy'n meddwl yn iaith Saesneg". Mae e'n licio cal hynna drosodd cyn i ni gael sgwrs go iawn yn Saesneg. Ddeudish i'n stori wrtha do a fynta'n cytuno bob hyn a hyn hefo, "Hope so", a "Can't do it, see". Twll dy dim di Mrs. Wilcox oed hi erbyn naw a phawb yn yr 'Ely' yn gwbod am fy mhroblem i.

"Tyrd i lle ni heno", medda Frogit. "Mi fydd un o'r hogia yn siwr Dduw o fod yn aros efo'i fodan." Mae'r hogia'n byw yn Albany Road a byth a hefyd yn hel straes

fatha fi. Rodd 'na foi o Llydaw yno hefo Connolly ers mis, wedi dwad i Gymru er mwyn dojo mynd i'r armi yn Ffrainc. Mae 'i loesun o at 'i fol o rwan, a dwn i ddim pa mor hir fydd o erbyn bydd hi'n saff iddo fo fynd yn ôl adra.

Mae Dai Siop sydd newydd gal 'i leishans yn ôl ar ôl cal 'i ddal hefo'r breathalyser yn Steddod Criath yn byw yno hefyd a gafon ni gyd lifft yn ôl hefo fo yn 'i gar. Pawb ond Frogit sy'n dipyn o ladies man ac yn canlyn rhyw fodan newydd bob lleuad.

"Stiwdant wyt ti?" medda fi wrth y pumad boi odd yn y car.

"Arglwydd, naci. Gweithio'n Sant Ffagans dwi", medda'r boi.

"Yn lle?" medda fi.

"Amgueddfa Werin Cymru, de", medda'r boi.

"Wsti Gron, lle ma nhw'n ail-godi hen dai o'r oesoedd o'r blaen," medda Dai Siop, sy'n dichyr. Ddim llawr callach wedyn chwaith.

Roeddwn ni'n digwydd pasio stryd Mrs. Wilcox ar y ffordd adra a dyma fi'n rowlio ffnest i lawr, hongian allan o'r car, codi dau fys a gweiddi fel dyn gwirion, "Stwffia dy blydi tŷ, y bitch!", fel tasa hi'n fy nghlwad i.

Rodd yr hogia i gyd yn holti 'u hochra, a mi chwertion nhw'n fwy byth pan nesh i ddechrau mynd yn sentimental nes ymlaen a deud os odd 'na Samaritans Trugarog heddiw, ma nhw oeddau nhw, yn rhoid hand i hogia fatha fi pan ma nhw maen trwbwl yn Gaerdydd.

GORONWY JONES

CALENDR EBRILL-MAI

EBRILL

- 23 Cymdeithas Gymraeg Dynion Rhiwbeina. Darlith gan ISLWYN JONES Tafarn Pantmawr.
25 Canolfan Addysg Oedolion yr Eglwys Newydd CELFYDDYD AM BLESER Gwers Un 7.00p.m.
Clwb Tŷ'r Cymry CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL 7.30p.m.
29-30 Cwmni Drama Ysgol Gyfun Rhydfelen AGI AGI Neuadd yr Ysgol 7.00p.m.

MAI

- 2 Cwmni Theatr Cymru, Adran Antur CYMERWCH, BWYTEWCH Yr Arena, Theatr Sherman, 6.30 & 9.00p.m.
C.A.C. Yr Eglwys Newydd CELFYDDYD AM BLESER Gwers Merched y Wawr HWYL A SBRI gyda Eleri Rogers a Myra Jenkins Caonlan yr Urd 7.30p.m.
4 Y Gymdeithas Wyddonol PROSEAU MEDDWL MEWN MYFYRWYR Dr Gareth Lotwick 7.15p.m.
Cymdeithas Heol y Crwys HELFA DRYSOR AR DROED gyda Ken Innes a John Albert Evans.
7 Cylch Meithrin Lllystfaen MIRI'R WERIN Canolfan Gymdeithasol Lllystfaen 7.30p.m.
9 C.A.C. Yr Eglwys Newydd CELFYDDYD AM BLESER Gwers Tri.
13 Cymdeithas Gymraeg Dynion Rhiwbeina. Darlith gan IFOR REES Tafarn Pantmawr.
14 Y Canolfan Chwaraeon Genedlaethol NOFIO NAWDD i godi arian at Ganolfan yr Urd.

Cyhoeddi'r Wyl

Mae'r trefniadau'n symud yn eu blaen yn fuan ynglŷn â Gwyl Gyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd. A'r dyddiadau i'w cofio yw Mehefin 30, Gorffennaf 1 a 2, 1977.

NOS IAU. Mae'n fuddiol mai'r plant a'r bobl ifanc sy'n rhoi cynhwyn ar bethau. Ar y Nos Iau, fel fydd pafiliwn Gerddi Sophia yn llawn (gobeithio) i wrando ar gyngerdd amrywiol, ac mae'r rhan fwyaf o'r rhai fydd yn ein diddanu eisoes yn paratoui'n ddiwyd. Fe fydd dros dri chant a hanner o blant cynradd (y mwyafrif ohonynt yn ddi-Gymraeg) yn cymryd rhan yn yr côr, ac fe fydd hefyd gerddorfa a band prës o'r ysgolion cynradd.

Fyddai'r un wyl yn gyflawn heb ddatganu a dawnsio gwerin, ac fe chwery'r eitemau hyn hefyd ran bwysig yng ngweithgareddau'r noson — ac mae hyn, wrth gwrs yn cynnwys canu penillion i sain y delyn.

Mae hwn yn gyfle da i gyflwyno'r Eisteddfod i'r dinasyddion sy'n rhy chwannog i edrych tua'r dwyrain draw — ac mae gobaith y daw'r rhieni, drwy eu plant, i weld arwyddocad yr Eisteddfod i'r Cymry.

Nos Wener

Noson y ddrama yw'r nos Wener, y cyntaf o Orffennaf, a chan mai dathlu ydyn ni, fe fydd yn noson hwyr. Gwahoddwyd Cwmni Theatr yr Ymylon i berfformio drama yn Theatr y Sherman, a'u dewis yw Siwan (Saunders Lewis), un o ddramâu mawr yr iaith Gymraeg. Pe bai Siwan, drwy ryw ryfedd wyrth, yn medru dychwelyd i Gymru, go brin y byddai'n ymateb i'w henw newydd achos ei henw iawn oedd Joan ac roedd yn ferch i frenin Lloegr, y brenin John. Ond fe ddaeth i Wynedd yn wraig i Llywelyn Fawr, ac os gallwn gredu'n dramodwyr, fu hi ddim yn hir dod i ymgydnabod â'r pethe. Yn fyr, fe'i Cymreigiwyd! A bydd ei stori yn wers i lawer ohonom.

Wedi i ran gyntaf y noson ddod i ben, bydd croeso inni symud drosodd i'r Arena i

gael ein diddanu'n bellach gan Adran Heol Conwy o'r Urdd a'r Aelwyd leol. Gwyddom i gyd am y safonau uchel a osodir gan Yr Aelwyd ac edrychwn ymlaen at noson fawr.

Pnawn Sadwrn

Dyma fydd uchafbwynt yr Wyl i amryw — y pnawn pan ddaw'r Orsedd yn ei holl rwyg a'i lliw, gyda'r Archdderwydd yn ei thywys, i gyhoeddi yng ngŵydd haul, llygad goleuni, y bydd yr eisteddfod yn cael ei chynnal ym 1978. Swyddogion yr Orsedd sy'n trefnu llawer o'r seremoni hon, ond mae gan y pwyllgor leol, hefyd, lawer o waith. Ac os ydych yn ffansio'ch hun fel smwddiwr, anfonwch eich enw i swyddfa'r Eisteddfod achos fe fydd oriau o waith smwddio caled o flaen rhywun, achos nid ar ddamwain y bydd y dillad gwyrdd a glas a gwyn yn edrych mor ddymunol.

Seremoni liwgar fydd hon, a gobaith pawb yw y bydd yr haul yn gwenu arni. Y gobaith yw y bydd yr orymddaith yn teithio trwy Stryd y Frenhines ar ei ffordd i un o lawntiau'r castell — dyma'r cyfle gorau i bawb weld fod rhywbeth yn DIGWYDD. Gwelsoch o'r blaen yn Y Dinesydd nad oes neb yn siŵr ble mae meini Eisteddfod 1960 erbyn hyn, ond

GORFFWYSWCH - YMLACIWCH



CERBYDAU WENALT

(Perchennog J.M. CROOKES)

Cerbydau moethus gyda 20-51
o seddau i'w hurio

SWYDDFA DOCYNNAU Ffôn Caerdydd 31174

WHITTLE ROAD, LECKWITH ESTATE,
CAERDYDD.

(Nosweithiau Ffôn 63250)

does neb yn poeni achos fe fydd y meini sy ar hyn o bryd o flaen yr Amgueddfa yn cael eu defnyddio — ac yn cael eu hadfer i'w lle priodol drachefn. Mae plant y Ddawns Flodau'n ymarfer yn galed yn barod — a chofiwch chwithau fod pensil a phapur wrth law gyda chi — achos dyma'r adeg pan fydd Rhestr y Testunau yn cael ei chyhoeddi, ac mae arian da yn aros i'w hennill mewn sawl adran.

Nos Sadwrn

Noson y côr fydd y nos Sadwrn — a disgwylir y bydd

pafiliwn Gerddi Sophia yn llawn am yr ail waith mewn tridiau — i wrando ar y côr a Cherddorfa Gymreig y BBC ac unawdwyr yn ein diddanu. Fel y gwyr y rhan fwyaf ohonoch, gobeithio, mae'n ymarfer yn galed ddwy waith yr wythnos a barn pawb yw fod graen ar y canu — ac edrychir ymlaen yn eiddgar at y noson hon. Ond mae lle o hyd i'r tenoriaid! Ble maen nhw, dwedwch? Dydyn nhw ddim yn ofni'r holl wragedd, gobeithio! Os oes yna denor yn darllen hwn, deued i'r ymarfer nesaf!

DRAMAU CAERDYDD

Bydd cyfle i weld Adran Antur Cwmni Theatr Cymru yn perfformio yng Nghaerdydd ym mis Mai. Cafodd cyflwyniadau cyntaf y grwp ifanc hwn, *Fflora* a *Portread* dderbyniad da iawn y llynedd; gellir gweld eu drama ddiweddaraf, *Cymeruch*, *Bwyteuch* yn yr Arena, Theatr Sherman Nos Lun, Mai yr ail am 6.30 a 9.00 p.m.

Teyrnged i Ryan

Er gwaethaf yr ergyd ofnadwy a gawsom i gyd wrth glywed am farwolaeth sydyn Ryan Davies yn America, gobeithia Theatr yr Ymylon y bydd modd iddynt barhau a'u cynlluniau am eu noson o ddramau, *Chwerthin o Bell* yn Theatr Sherman (Mai 31 - Mehefin 4), gan gyflwyno'r noson yn deyrnged i Ryan. Tair ffars fer o Ffrainc yw'r drama, a dylai'r noson fod yn un ddoniol dros ben: pa well teyrnged i'r digrifwr mwyaf a welodd Cymru erioed? Dewch yno'n llu i dalu'ch teyrnged chithau.

